Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1407 (Cy. 248)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316 (Cy. 228)) ("Rheoliadau 2019").

Mae rheoliad 3 yn gwneud mân ddiwygiad i destun Cymraeg rheoliad 6 o Reoliadau 2019 i sicrhau cyfwerthedd â'r testun Saesneg.

Mae rheoliad 4 yn gwneud diwygiadau i reoliad 7 o Reoliadau 2019, er mwyn cywiro croesgyfeiriad a sicrhau cyfwerthedd rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1407 (Cy. 248)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019

*Gwnaed* *28 Hydref 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *29 Hydref 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â rheoli a rheoleiddio gollwng organeddau a addaswyd yn enetig yn fwriadol, eu gosod ar y farchnad a'u symud ar draws ffin.

(**1**) O.S. 2003/2901. Yn rhinwedd paragraffau 28(1) a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae O.S. 2003/2901 yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan adran 59(1) o'r Ddeddf honno.

(**2**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51), a chan adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 111(4) ac (11) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**), ar ôl ymgynghori â'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 126(5) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

**Diwygio Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019**

**2.** Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019(**2**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

**Diwygio rheoliad 6**

**3.** Yn nhestun Cymraeg rheoliad 6 (diwygio Atodlen 1), ym mharagraff (13), ar ôl "chwynnog," mewnosoder " neu".

**Diwygio rheoliad 7**

**4.** Yn rheoliad 7 (mewnosod Atodlen 1A)—

(a) yn nhestun Cymraeg paragraff 3 a fewnosodir, yn lle "(e) enw cyffredin" rhodder "(dd) enw cyffredin",

(b) yn nhestun paragraff 15(c) a fewnosodir, yn lle "14(dd)" rhodder "14(1)(e)", ac

(c) yn nhestun Cymraeg paragraffau 22(a) a 24(1)(a) a fewnosodir, hepgorer "amgylcheddol".

(**1**) 1990 p. 43. Mae is-adran (11) yn diffinio "prescribed". Amnewidiwyd adran 126 gan baragraff 18 o Atodlen 3 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn wedi hynny i Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2019/1316 (Cy. 228).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
28 Hydref 2019